Ysgol Iolo Morganwg

Polisi Cwynion

Cyhoeddodd y Swyddfa Gymreig reolau newydd sy'n gofyn i bob corff llywodraethol i gynhyrchu gweithdrefnau ar gyfer cwynion cyffredinol a wneir gan lywodraethwyr, disgyblion ac eraill erbyn Chwefror 2000.

Yn Fras:-

Dylid mynd â phob *cwyn* at *y* prifathro yn y lle cyntaf. Os nad ydych yn fodlon, neu os yw'r gŵyn yn erbyn y pennaeth yna dylai gael ei anfon yn ysgrifenedig at Gadeirydd y Llywodraethwyr. Yna caiff ei drafod gan y Pwyllgor Cwynion.

Manylion Cyswllt:

Y Pennaeth: Mr Dylan Wyn Evans

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Cysylltwch â'r Ysgol

Ysgol Iolo Morganwg, Broadway, Y Bont-faen, CF71 7ER

Rhif ffon: 01446 772358 Ffacs: 01446 775284

e-bost:YIoloMorganwg@valeofglamorgan.gov.uk

Os bydd y canlyniad yn anfoddhaol, neu os yw'r gŵyn yn erbyn y Llywodraethwyr rhaid i'r mater gael ei gyfeirio'n ysgrifenedig at y Cyfarwyddwr Addysg, Swyddfeydd Dinesig, Y Barri.

Nid yw'r weithdrefn yma'n disodli trefniadau cwynion sydd eisoes yn bodoli ar gyfer y cwricwlwm, addysg rhyw, mynediad, diarddel disgyblion, anghenion arbennig, cwynion staff, medrusrwydd staff neu ymchwiliadau amddiffyn plant.

1.1 Y Pennaeth fydd y swyddog cwynion yn yr ysgol a glustnodir i ymchwilio i bob cwyn ffurfiol a phenderfynu ar y dull o weithredu. Gall y corff llywodraethol apelio yn erbyn y penderfyniad a gallent benodi eu hymchwiliad i bwyllgor. Ni ddylai unrhyw lywodraethwr fod yn aelod o'r panel/pwyllgor yma. Gall y corff llywodraethol wneud darpariaethau i ganiatáu apêl i'r AALL.

1.2 Dylai unrhyw gwyn yn erbyn y pennaeth, llywodraethwr neu'r corff llywodraethol ei chyfeirio at y cadeirydd/yddes fydd yn cymryd rôl y swyddog cwynion. Cyfeirir cwyn yn erbyn y cadeirydd/yddes at y clerc i'r llywodraethwyr ac yna caiff ei thrafod mewn cyfarfod llawn o'r corff llywodraethol.

2. CWYNION CYFFREDINOL

Mathau o Gwynion

2.1 Yn ôl Deddf Fframwaith a Safonau Ysgolion 1998 rhaid i'r corff llywodraethol benderfynu sut i ymdrin â chwynion gan ddisgyblion, llywodraethwyr ac eraill.

Dylai bod tair gweithdrefn ysgrifenedig wahanol ar gyfer ymdrin â'r mathau yma o gwynion.

2.2 Nid yw'r adran yma'n ymwneud â chwynion am:

Y Cwricwlwm
Addysg Rhyw
mynediad
diarddel disgyblion
Addysg Anghenion Arbennig
Cwynion staff
ymchwiliadau i amddiffyn plant

Mae darpariaeth ar gyfer cwynion rhieni am y cwricwlwm yn bodoli eisoes ac fe'i amlinellir yn y llawlyfr.

2.3 Mae gwahanol gamau yn rhan o'r broses gwynion

- ystyriaeth anffurfiol o'r gŵyn gan y swyddog cwynion
- cwyn ffurfiol i'r swyddog cwynion
- dylid cyfeirio cwynion difrifol neu gwynion brys yn uniongyrchol at y pennaeth
- apêl i'r corff llywodraethol
- apêl i'r AALL gyda chytundeb y corff llywodraethol

Cam 1) Ystyriaeth anffurfiol o'r gŵyn

Pan fydd person wedi lleisio cwyn, yn ysgrifenedig neu wyneb yn wyneb, i aelod o staff neu i lywodraethwr ac nad yw'r mater wedi ei ddatrys yn llwyr gall wneud cwyn ffurfiol.

Cam 2) Ystyriaeth ffurfiol o gŵyn

Rhaid cyfeirio cwyn ffurfiol at y swyddog cwynion a hynny'n ysgrifenedig.

- Y Pennaeth yw'r swyddog cwynion.

- Cedwir cofrestr o'r holl gwynion gan y swyddog cwynion. Dylai gynnwys yr wybodaeth ganlynol:
  enw a chyfeiriad y sawl sy'n gwneud y gŵyn
  disgrifiad byr o'r gŵyn
  yr amser a dreuliwyd i ddatrys y gŵyn a'r canlyniad

Gall yr AALL neu'r Ysgrifennydd Gwladol weld y gofrestr ar unrhyw adeg

Bydd y swyddog cwynion yn ymchwilio i'r gŵyn ac yn penderfynu sut i weithredu, os yn berthnasol, fel ymateb. Dylid ysgrifennu llythyr yn nodi'r penderfyniad i'r sawl sy'n cwyno o fewn 10 diwrnod i'r gŵyn gael ei gwneud. Os na fydd hyn yn bosib dylid anfon llythyr yn nodi pryd y gwneir penderfyniad. Dylai'r llythyr nodi yr hawl i atgyweirio at y pennaeth o fewn 10 diwrnod o dderbyn y llythyr penderfyniad.

Bydd y pennaeth yn cyfarfod â'r sawl sy'n cwyno i drafod y gŵyn. Bydd y pennaeth yn hysbysu'r sawl sy'n cwyno o'r penderfyniad a'r dull o weithredu o fewn 10 diwrnod. Dylid hysbysu'r sawl sy'n cwyno o'u hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i'r corff llywodraethol.

Cam 3) Apêl i'r corff llywodraethol

Dylai'r sawl sy'n cwyno hysbysu'r pennaeth o fewn 10 diwrnod i dderbyn y llythyr penderfyniad os ydynt am apelio i'r corff llywodraethol.

Bydd y pennaeth yn danfon hysbysiad o'r apêl yma at gadeirydd/yddes y llywodraethwyr o fewn 5 diwrnod i'w derbyn ac yn cynnwys unrhyw ddatganiad a wneir gan y sawl sy'n cwyno.

Bydd y corff llywodraethol yn dirprwyo ymchwiliad y gŵyn i bwyllgor. Bydd y pwyllgor yn cynnwys o leiaf 3 aelod, gyda'r clerc yn cadw cofnodion. Rhaid i un aelod fod yn rhiant disgybl yn yr ysgol. Ni fydd y pennaeth yn aelod o'r pwyllgor.

Rhaid i'r pwyllgor sefydlu amserlen ar gyfer yr ymchwiliad a hysbysu'r sawl sy'n cwyno a'r corff llywodraethol. Gall y pwyllgor gynnal gwrandawiad llafar ble y caiff pawb y cyfle i wneud cynrychiolaeth. Dylid anfon datganiadau ysgrifenedig i'r pwyllgor 5 diwrnod cyn y cyfarfod.

Cam 4) Apêl i'r AALL

Gall y corff llywodraethol ganiatáu apêl bellach i'r AALL. Gadewir yr apêl bellach yma i ddoethineb Cadeirydd/yddes y llywodraethwyr.

Bydd yr AALL yn gwneud eu penderfyniad ar sail argymhelliad y corff llywodraethol. Dylai'r llythyr a fydd gyda'r gŵyn yn amlinellu'r manylion a'r rhesymau dros argymhelliad y llywodraethwyr.

Dylai'r corff llywodraethol ystyried penderfyniad yr AALL fel argymhelliad cyn gwneud eu penderfyniad terfynol.

3. Cwynion yn erbyn y pennaeth, llywodraethwyr neu gadeirydd/yddes y llywodraethwyr

3.1 Dylid cyfeirio cwynion am y pennaeth, llywodraethwyr neu'r corff llywodraethol at gadair y corff llywodraethol fydd yn ymddwyn fel y swyddog cwynion. (Bydd y math yma o gŵyn yn cael ei gyfeirio ar y pennaeth). Gellir gwneud apêl i'r pwyllgor cwynion.

3.2 Dylid cyfeirio cwynion yn erbyn y cadeirydd/yddes at glerc y llywodraethwyr fydd yn trefnu bod y cwyn yn cael ei drafod yn y cyfarfod llawn nesaf. Bydd y cadeirydd/yddes yn camu allan tra bod y cwyn yn cael ei ystyried. Gellir gwneud apêl i'r pwyllgor cwynion neu gyfeirio at yr AALL.

3.3 Rhaid i unrhyw gŵyn gan lywodraethwr gael ei drafod mewn cyfarfod llawn o'r corff llywodraethol.